YMDDIFFYNIAD

M. 1481

Rhag-pla o SCHISM:

NEU

Swyn gyfaredd yn erbyn neullduaethau yr Amſeroedd. A dynwyd allan o Ragſcrifenadau yr Apoſtolion gan mwyaf: allan o waith St. *Paul*, a St. *Jud*.

Yn dangos trwy yſpyſrwydd goruchel, i ba gyfriw bechodau a pheryglon, ofnadwy y ſyrthiant hwy, y rhai a rêd allan or Eccleſia i *Schiſm* neu rwygiad. Ac o ba fath gynneddf melldigedig ddamnedig ydyw y gwyr a demptia, ac a awenia ir cyfriw neullduadau.

Cyfeithiad *R. V.* Eſc.

---

1 Cor. 11. 18, 19.

Yr ydwyf yn clywed fod ymrafaelion yn eich myſc chwi ac o ran yr ydwyf yn credu.

Canys rhaid yw bod Hereſiau yn eich myſc; fel y byddo y rhai cymeradwy yn eglur yn eich plith chwi.

Tertul de præſc. adv. Hær.

Nec tamen ideo bonum hæreſes quia eſſe eas oportebat quaſi et malum non oportuerit eſſe, nam et dominum tradi oportebat ſed væ traditori.

Printiedig ynghaer Ludd gan *Joa. Streater*, tros *Philip Chetwinde*, 1658.

BODLEIAN
P
30 JUN 1966
LIBRARY

At y Darllenydd.

YR *Awdur a amcanasai yr ymddiffyniad hwn yn vnig megis yn chwanegiad at ei Lawlyfr. Mal y byddai Antidot neu ſwyn gyfaredd yn gyſtal yn erbyn y newydd-dra* Schſmatigaidd *a* Phabeidd-dra, *yr hwn er bod* Humor *yr amſeroedd yn fawr yn ei erbyn, etto y llall aeth yn* Epidemical *yn heintglwyf yr amſeroedd. Eithr oblegit y dichon ddymuned, a chael budd oddiwrth hwn, y rhai nid oes vddynt ar* Ymddiffyniad *or blaen yn y llyfr hwnnw allant (os gwelant yn dda) rwymo gyd ag efo y Swyn gyfaredd newydd yma: Fe printiwyd ef felly yn y cyfriw* Ddalen *y gellir ei chwanegi atto neu i adael or neullduo.*

Rhwygedig crogedig.

Mal y gallo wneuthur mwy daioni y gwnaed hynny. A llawer (yn ſiccr) a wneiff, oni fetch a pin yſcrifen yr Awdur daro r nod y Lefelodd *ef atto. Ac na bo mwy buſtl iw gael ynghydwybod y darllenydd, nag yn ei* ingc *ymtau canys nid cyffroi i ddigio, ond lles buddiol a ewyllyſiai, ac oni bydd dyn a chariad iddo ei hun, i drechu y gwirioneddy mae yn gobeithio yma bethau i ortrechu mwy, nag y digio ei eirian.*

Yn ddarn gyfaddas y mynnai ei gael ef iw Lyfran *ac iw* feddwl. *Yr hyn a lefara a genau* Pacian: Christianus mihi nomen, Catholicus cognomen: (*nid Rhufeiniaidd yw ef, ond Cristion Catholic;*) *Ac oddiwrth yspryd St.* Basil, Yn hynny y mae, mal yr oedd erri-oed, a thrwy Ras Duw, a fydd fyth fel y mae. Ac yn Attolwg i ti ac i bawb oll yn yspryd St. *Paul*, yn enw yr Arglwydd Jesu Grist, wneuthur ac i sod sel y dylych, *ddywedyd o bawb o honoch yr vn peth, na byddo Schismau neu ymbleidio yn eich plith, eithr bod wedi eich cyfan gysylldu, mewn vn feddwl ac vn farn. Bod or meddwl ar yspryd hwn ynot ti, ac yntau ydyw ewyllys a gweddi.*

Christion yw fy enw cyffredin cyfenw.

Carwr y Cristian neu

Philo-Christianus.

Ym-

Ymddiffynniad rhag

pla o *Schiſm*, neu ſwyn gyſaredd yn erbyn neullduaethau yr amſeroedd a dynnwyd allan o ragſeriſennau yr Apoſtolion gan mwyaf allan o waith St. *Paul*, a St. *Jud*.

Rhyf. 16. 17, 18.

Ac yr wyf yn attolwg i chwi frodyr, graffu ar y rhai ſyn peri angydfod, a rhwyſtrau, yr erbyn yr athrawiaeth a ddyſgaſoch *chwi, a chilio oddiwrthynt.*

Canys y rhai ſy gyfriw, nid ydynt yn gwaſanaethu ein Harglwydd Jeſu Griſt: eithr eu bol eu hunain, a thrwy ymadrodd teg a gweniaith yn twyllo calonnau y rhai diddrwg.

Jud *ad* 19.

Y rhai hyn yw y rhai ſy n eu didoli eu hunain, yn anianol heb fod yr yſpryd ganddynt.

OS St. *Paul* gan hynuy a St. *Jud* a ſyddant Farnwyr Didolwyr a nodir am wyr a walanaetha eu bol o flaen Criſt, o daſodan gwell a theceach nai calonnau, a'mwy o gig drwg ynddynt nag o *yſpryd* da: Wedi ffurfio yn-

ddynt enaid anifail yn hytrach nag enaid Cristion. Etto y mae St. *Paul* yn dyst a Duw ei hun yn farnwr, nyd ydyw pob vn am ddidolant (neu am neullduant) yn ddidolwr allan o law ; Canys y mae Duw yr hwn a wahardd bob pechod, yn gorchymyn math ar ddidoliad——— *Ymddidolwch medd yr Arglwydd* Ἀφορίσθητε.

2 Cor. 6. 17.

Mal gan nynny na wneler cam a neb, ond cael or talcen euog ei *Losci*, ar dieuog yn ddiangol oddiwrth y rôd hwnnw o wradwydd, rhaid i ni roi rhagoriaeth yn orau yngoleuni Gair yr holl alluog Dduw. *Deuwch allan o honi fy mhobl fel na byddoch gydgyfrannogion oi phechodau ac na daerbynioch oi phlauau hi.* Dyma lef or nefoedd, wrth oleuni yr hon y gwelwn, os rhyw le nen Ecclwys a fydd yn *Babilon* (bydded yn *naturiol* neu yn ddirgel, yn *Caldea* neu yn yr *Ital*, pa vn neu ple bynnac y bo) *hynny yw* os cynnydda yn gorph mor llygredig, a chwedi ei chlwyfo cyn belled a chamwedd ac a drygioni, mal na allom heb bechod a phla ein *Corpholiaethu* an cymuno ag yhi, allan rhaid i ni fyned y mae Duw yn ein galw i ddyfod allan. Ac yno heb perigl yn y byd, nag o *annfudd-dod* vchel ir holl alluog Dduw, na *dinistr* i ni ein hunain y mae yn rhaid *symudo*. *Ewch allan ciliwch allan*, (megis am eich hoedloedd) ie yr hyn sydd (neu a ddylai sod yn swy) *eni fynnwn ni ein torri ymaith yn ei hanwiredd hi*, rhaid i ni frysio ymaith mal y carom ein eneidau.

Dad. 18. 4.

Jer. 50. 8.

Y nôd cyffredin o Schism, y mae y rhai o Rusain yn ei roddi i ni, yr *Adgyweiriedig* (am symud oddiwrthynt hwy) nid yw yn argraffu mwy, ar ben doeth, o *gywilydd*, nag yw hauarn oer yn briwo. Nes y dangosont (trwy eglurweh gwell nai eu hun eu hun) na ymadawsont hwy oddi wrth y purdeb dechreuol ar gosodiad iachus ar cyflwr o Ecclwys Gtistnogawl, an bod ninnau heb ddychwelyd iddi. Ac na synnem ni vddynt nwy syned yn ol gyd a ni, ac na chynnwyswn vddynt hwy ddysod lle yr *aethom* ninnau: A pa bryd bynnac y golodant droed i ddychwelyd ir hên burdeb hwnnw, na byddwn ni allan o law yn barod i gysarsod ac i gysylltu *dwylaw* a glinian gyd ac hwynt hwy. Ac ar ddan, *dwylaw*, a *chalonnau*, vno eneidiau a chyrph ag hwynt, yn yr vnrhiw Ecclwys a chyd a hwynt, a phawb oll mewn cymun gyd ag hwynt.

A phrofant. Na ymddarostyngwn ni ir vnig eli a meddyginiaeth i *Schism: Cymansa* rydd *Gyffredin*, pa bryd bynnac y galwer gan wyr dihawl a didueddol i vnrhyw blaid, i syned rhagddynt yn ol rheolau Cristhogawl, ac eglurwch i wrando ac i ddibennu yr ymrafaelion or ddeutu, ac i ddatcan cyn belled yr aethont ar gefeilorn, ac ydylent ddychwelyd, ac yn ol hynny iw *trefnu*, ai *heddychu*.

Yn ol amser y fren. mari y Papistiaid yn hir a ddeuai in hecclwys ni nes i (pius 5. ai darw eu cornio allan) nid mal Cymansa Trent. nid oedd na chyffredin na didueddol.

Wrth hyn y Barna Duw ar Byd, pwy swyaf a gâr ac a wna *Schism*: hwynt hwy o sewn, ai nyni allan o Ecclwys Rusain.

Ac yma galwer yr hen Dadau a grawndawer, am *Dystion*, ni osododd neb allan *natur* ac *euogrwydd Schism* mewn arwyddion *cywirach* ac *hynottach*. Hwynt hwy ai gwahanredant oddiwrth *Heresi* mal hyn: Heresi yw ymadawiad a gwirioned Ecclwysawl, hyd at dorriad y *ffydd* Gatholic, eithr *Schism* yw torriad yr vndeb Ecclwysawl, ac ymado a *Chariad* Cristnogawl felly y mae St. *Jerom* yn ei roi allan: *Heresi* a faentimia opiniwn gwrthnysig yn yr Ecclwys, eithr *Schism* a wna neullduaeth oddiwrthi. Ac felly y mae St. *Awstin* yn rhoddi y rhagoriaeth; *Heresi* sydd yn blaid or rheini a ddylynant lawer o ffyrdd, eithr *Schism* neullduaeth or rheini ydynt yn myned ar ol *vn* ffordd. Ac am hynny nid amriw ffydd, ond gwahanu Cymun gyd ag ef, sydd *Schism*. Pa vn bynnac ai gyda, ai heb Heresi, (mal y mae Schism yn fynych, yn *gymar* yn *blentyn* yn *fam*, a llawer amser yn ddieithr iddi) y maent bob amser yn rhoi euogrwydd, Schism, ir cyfriw dorriad ar gariad. Gan wneuthur yr vndeb hwnnw yn *amlygyn* ac yn *fatter* o honi, ar torriad yma yn lluniol *ffurf*.

Mal hyn y catas St. *Cyprian* ei ryddhau oddiwrth *Schism* trwy farn y Gymansa o Carthago (er na chafas ei farnu yn ddieuog o feiau erail) am ei fod ef ei hun yn cadw Cymun gyd ar Ecclwys *Gatholic*, ac (er nad oeddynt oi feddwl ef) heb gadw neb oddiwrthi. Eithr yn yr ail Gymansa o *Constantinobl*, fe ai bwriwyd hwy yn euog, (trwy leferydd ac ewyllys Cyffredin 150 or Tadau) yr

rhai

rhai ni chadwafant Gymmun ar Ecclwys, et eu bod yn ddifai ond hynny. Yr eglurwch oedd yr vnrhiw fath ac or blaen. Megis na wnaethont mo bob didoliad yn *bechod*, oddiwrth pa *corph* bynnac; felly ni wnaethant mo bob gwahaniad, yn *Schifm*, oddwrth bob rhyw Ecclwys, pa fath bynnac, eithr an-nyledus ac anghyfion vn, oddiwrth oll, neu oddiwrth vnrhyw.

Os gan hynny neullduol Ecclwys (canys y *gyffredin* ni eill, a honno nid Ecclwys *Rufain* yw), os y hi, neu vnrhyw, o fod yn Gatholic a dry yn *Heretic* mewn ffydd, ac o vn *fanctaidd*, a ddaw yn *wrthun* ei Addoliad, ei gadael hi nid yw *Schifm*, o herwydd nid *ymadawiad* ond *dychweliad* ir lân Ecclwys Gatholic ydyw. Ac nid yw hyn wneuthur rhwygiad yn y corph, ond i echel haint oddiwrth yr aelodau. Na, cyfundeb a chyd-gyfranniad ar cyfriw Ecclwys, fydd fradwriaeth yn hytrach yn erbyn y *pen*, na chymmun ar *corph*. Ac i ymwrthod ar cyfriw *gefeillach*, nid yw *wneuthur*, ond gwelhau, ac iachau *torriad*. Ac am hynny yn erbyn achwyn *Rhufain* am roi *Schifm* yn ein herbyn ni am adael eu cynylleidfaoedd hwynt, ein Hatteb a ddichon fod, mai yn erbyn yr *Arianiaid* nid *enoc*. Megis y tynnodd yr *Escob* ei achos o ddidoliad a rhagoriaeth oddiwrth *y Donatiftiaid*. *Nyni gan gadw r Ecclwys (trwy ras Duw) a barhawn yn mher ffaiddlan ffydd a chymmun y Tadau: ac ni ddidolwn oddiwrth yr vn, ond yr rhai ni wnant felly.*

Na

Na, ein *ymadiad* ni a haeddai fawl am wneuthur yn dda. Os hwy a ddanodant i ni ballu on vfudd-dod oddiwrth y *gadair* Apostolaidd, yn yrhon y maent yn profi ac yn *dadlen* fod *rhill* wastadol o Babau cyn llynol i St. *Peter*. St. *Hierom* ac *Irenens* a gaiff roi *ail atteb* trosom ni. Nid yw yr Ecclwys yn gynnwysedig mewn muriau neu waliau, onid mewn seiliau o ffydd. Ac am hynny rhaid i ni vfudd-hau ir offeiriadau hynny, yr rhai gydat Escobion a ddaethont ar ol, a dderbyniasant ddawn y gwirionedd. Onide nid oes dim pechod neu Schism yn ein ymadawiad ni oddiwrthynt hwy, ond yn eu gwaith hwy yn gadael seiliau y ffydd.

Scries.

Ac o herwydd ein bod ni o Ecclwys mor ddedwyddol, a synwyr-ddoeth wedi ein glanhau an iachau or llygredigaethau hynny o *Rufam*, (mal yr ydym yn sefyll wedi ein gosod ar ein hên sail an llawr) Am hynny y neullduolaethau presennol, ar gwahaniadau ynddi ydynt yn eglur wrthun a drygionus. Ac y maent hwy yn fyddar ac yn ddall y sprydol, nad ydynt yn clywed ac yn gweled llef a goleuni or nef yn galw arnynt oddiwrth y neullduaeth hynny, ac yn dangos vddynt pa ham y dylent ddyfod ar y galwad hwnnw. Os llefain a thân Apostolaidd a ddichon wneuthur y llef honno ar goleuni. Dau o honynt, ag vn *fflam* olau (megis o ddas eithyn ar fryn) ai dadeuddia hwynt am-rai diffaeth drygionus: yr rhai a wnel ddidoliad, ac yn eu *nodi*, am y rhai dihiraf or bryntion,

Gwelwch Act. & Monu. Hani. 8.

Rhyf. 16.17. Jud. 19. 2 The. 3.14. 2 Petr. 2. Jac. 3.16. ar. 4.1. 2 Joa. ad 10.

Ac oll ag vn genau yn llefain allan arnynt, megis at glwyf dŷ yr yſprydoedd, ac wrthym ni (mal y maent yn gyſtriw) iw gochel hwynt. Ac oni ſynnwn ni ein *llefcian arbeithio*, rhaid i ni wneuthur y ddau. Nodwch yn gyntaf ac yno gochelwch hwynt. Felly y gnawn am eu mawr 1. *Enogrwydd*. ac 2. *Coſpedigaeth*. Os daliwn ni ſulw yn dda. Y Pechod yw yn erbyn yr yſpryd glân medd St. *Ambros*. Pechod yn ei erbyn ef, diammau yw, a thra-vchel o herwydd ei relwm ef: Canys pechodau eraill ydynt *contra ſingulos* ſef yn erbyn rhai vnig, hwn *contra vniverſos* ſef: yn erbyn y cwbl oll. Felly yn gimaint ac yw cyſtredin rhwydd yn ſwy nag vn perſon, y mae *Schiſm* vwchlaw pechod arall. Ac yn gimaint ac y mae *Sanctteiddiol* yn well na *Dinaſol* gyffredin rhwydd, cym mhelled y mae hwn yn waeth na phechod yn erbyn *Cymdeithas amſerol*. Hynny yw, cimaint ac yw y neloedd vwchlaw r ddaear. Heddwch Duw o flaen hedd dyn. A chyſlwr da in eneidiau o flaen in cyrph. Yr Eccl wys o flaen y byd. Ac y mae yn rhaid i hynny fod yn fawr anteidrol. Canys os yw pris yn enaid vwchlaw gwerth y byd; yr Eccl wys (yr hon a gynnwys ynddi lawer mil o filoedd o eneidiau,) a ddylai gael ei phriſio yn ollawl vwchlaw myrdd o ſydoedd. Ac y mae *Schiſm* yn taro at wir gorph yr Eccl wys: ie, yn gwnhamu vndeb yr hwn yw r *yſpryd*, ac yn torri ymaith *gariad* yr hwn yw * *rhwymedigaeth* y corph hwnnw.

Nodwch hwynt. Canys pechod mawr yw Schiſm. Nodwch hwynt.

Fph. 4. 3. 16. Col. 2. 9. ar. 3. 14.

* *Charitatis Chriſtianæ vinculum.*

Felly

Felly y mae yn gadael yr Aelodan yn rhydd eisiau rhwym o berffeithrwydd, ac yn gosod yr holl gorph yn friwedig i waedu. Gan wneuthur gwaeth o gorph *dirgel* Crist nag a wnaeth yr Iuddewon oi *anianol*, (Etto yr oedd ef yn rhoi ei gorph dirgel or blaen, canys er maint ei llid cythreulig i Grist, ni wnaethont ond archolli a briwo ei gorph, ni thorrwyd asgwrn o hono; y mae y rhain yn torri ac yn yssu yr Ecclwysydd oll yn ddarnau. Pechod or *vchaf*. Canys pa fodd y geill y llaw gyrraedd yn vwch, nai chysodi ei hun ar vnwaith (nid yn erbyn aelod yr hyn a wnaeth rhai yn bechod difaddeu eithr) yn erbyn y corph gorau yn y byd yr *Ecclwys*. Ac yn erbyn (nid rhyw yspryd glân o ddyn ond) y *gorau*, yn anhersynol vwchlaw oll yn y byd, yr *yspryd glan*; yr hwn trwy y rhwym sanctaidd hwnnw a ddeil ynghyd, ac a fywhá yr Aelodau yn y corph hwnnw. Ac yn erbyn (nid llawer o Gristnogion yn vnig ond)
Act. 9. 5. Crist ei hunan, yr hwn a lywodraetha ac a fywha y corph hwnnw, ar Aelodau hynny, trwy yr yspryd glân. Noda ef gan hynny am y pechod or ryw mwyaf anwireddus.

Ac am hynny o *Ddigwyddiad* mor alarus. O blegit yr Aelodau a *Syrthiasant* ymaith trwy *Schism* ydynt *Golledig*: (megis canghennau a dorrwyd ymaith oddiwrth y pren a grina ac a wywa) yn *Farwol* eisiau bywyd; oddiwrth yr yspryd glan, yr hwn a *Fywhâ* yr aelodau yn vnig yr rhai ydynt yn y *corph*. Yr rhai a gadwant i mewn a *friwir* herwydd y golled, ac a orweddant yn *Wanhychlyd*, am hynny

hynny megis y mae corph yn gloff, ac yn colli nerth lawer wrth golli llawer o waed ar dorriad rhai Aelodau. A holl gorph cyfan yr Ecclwys, a adewir yn wan trwy y *Gwahaniad*, yn barod i fyrthio i ddiniſtr: y ffordd fawr i hynny ym mhobryw *deuln* neu *Gyffredinwlad*: eithr yn enwedig yn nhŷ Dduw, a Theirnas Griſt: ie y mae corph yr ſtât yn cael ei yſgwyd gan y *Cedwm*, megis diniſtr a chwymp Emerodraeth Groeg a ddaeth ar dorriadau r Ecclwys. Trwy *Schiſmau* ac ymbleidiau yn galw ac yn gollwng i feyn y Twrc (yr *ordd* a dorrod y corph oll yn ddarnau) Na, mae holl gorph dynol-ryw yn waeth, o achos y *rhwygiadau* hyn. Canys, am yr *anffyddloniaid* yn lle eu galw hwynt i mewn, hyn ai ceidw hwynt allan or Ecclwys. Cymmhelled oddiwrth eu gwahadd, ai derbyn hwynt, trwy fedydd i ffydd Griſt, mal y mae yn rhoddi vddynt Sacrament o Gydffurfiad yn ei hun ei hunain. * Nid cau eu faſnau, fel y dylem, ac y gallem, trwy ein ymddygiad Criſtnogawl canmoladwy, an cytrundeb, ond ei egoryd hwynt yn llydan i gablu yr Ecclwys am gorph o dreſn wrthun, a Chriſt, am na byddai yn hon ar gorph gwell.

Mar. 3. 24.

* *Dicit gentilis vellem fieri Chriſtianum ſed neſcio cui hæream.* Chryſ.

Am yr *Euogrwydd* mawr hwn, y mae Duw yn rhoddi *coſpedigaeth* cyfattebol. Mewn Barn a marwolaeth gymmwys ir cyfriw erchill Gablwyr Criſt, a llofruddwyr yn ei Ecclwys. Or rhai y gwelodd y byd ddihenydd ofnadwy.

Y gyntaf oedd yn Ecclwys yr *Iuddewon*. Rhwygedig a thorredig yn ddwy: o waith *Corah* ai *Wrthryfelwyr*. Am hynny (i ddangos gimaint oedd o gafineb iw pechod gan y *nefoedd*) y ddaiar a egorodd ei safn iw cymeryd yn fyw i *offern*. Ac megis (mal nad oedd yn hên ddraeedd yn ddigon drwg vddynt (er ein bod ni yn darllain o amriw draehineb trwy ddwfr tân ac awyr or blaen) fe wnaeth Duw beth newydd vddynt hwy, y cyfriw ni fuasai errioed yn y byd or blaen. Creadigaeth newydd ar gofpedigaeth. Uffern ar nefoedd yn cyttuno i lofci ac i ddifa yr holl ddynion, ar pethau yn y *Schifm*, *Tadau*, a *Chan-llywyr* oll, mewn vn *agen*, y di, y gwerlyll, ar pyrthynafau gyd ar *gwyr gwragedd* ai *plant*.

Yr ail oedd yn yr Ecclwys Griftnogawl o waith *Arrius*, yr hwn megis *Corah* arall mewn balchder calon a fynwyr, trwy *Hereſi* refynol a wnaeth *Schifm* alarus: yn yr hon y collodd yr Ecclwys *fwrdd* o gyrph ac eneidiau; ac or hon, y mae yn gorwedd hyd y dydd heddiw yn friwedig iawn, ac yn wanhychfyd: Canys ef yr hwn (heb ganddo na dyledus *barch* na *thrugaredd* iw *fachawdwr* anwyl nag iw *fam*) yn felldigedig a ddarniodd ei gorph ef, ac a dynnodd ei gwaed hithau) mal yr oedd ef yn myned ymaith mewn gorfoledd efo ai *Ddilynwyr*, yn yr heol gwedi ei daro yn ddilymwth gan *Ddychryn*, ac eifiau arno ddattod carrau i efmwythau ei gorph, yn y gaudy cyffredin (nefaf garllaw) yn gyffelyb i *Judas* a dywalltodd allan ei berfedd

fedd ai ymwa garoedd yn dra-gofidus. *Conſtantius* yr Emerodr, yr hwn a roddaſai iw blaid ef yr anadl cyntaf o Awdurdod, (iw llawenydd mawr hwy ac alar yr Eccluys) gan ei daro a chyſtudd, a fu farw or Parlys mud. *Valens*, y coleddwr ar ymddiffyniad ir blaid honno, yr hwn ai nerth Emerodraidd, a *borthodd* y *Fflam* honno, a loſcwyd a *thân*, a enynnwyd rhwy gynddaredd a chynddeiriogrwydd eu dwylaw hwynt, eneidiau yr rhai a loſcaſai ef ar *Schiſm* honno. *Anaſtaſius* ei ceſaill, (mal y dywaid rhai) a darawyd a charreg taran, ac *Olympius* ei Gampiwr yntau (ar yr un cyfrif, yn cablu y Drindod Sanctaidd wrth ymolchi) a darawyd a thair o gerrig y Daran.

Ac yn ôl yr hwn yn ei fyw tros 40 ai atroliodd yn rhyfeddol *Athanaſius* (yr hwn yn ail i *Moſes* a ſaſai yn yr adwy i attal y torriad, mewn *Cymanfa* o gymylleidfa gaſgledig o bwrbas or *Arrianiaid* yn *Antioch* a gondemniwyd ar holl rai oi gwrthwynebwyn a erlidienr; *Alexandria* ei ddinas ef a wnaed yn wag o bobl oll, *Antioch* ei hun, a *Dinaſoedd* y *Dwyrain*, a yſgydwyd felly, ac a ddiniſtriwyd gan *Ddaiargrynfau*: Megis pe bai Dduw yn mynnu yddynt hwy ar holl fyd wybod wrth y *Sugneddau* newyddion hynny, y fath waith greſynus oedd fod or hên *Fradwriaeth*, neu r *Gefeillach*. Y mae *Jud* yn ei galw ffordd *Corah*, (yn vnig y mae yn ei wneuthur yn llettach a rhedfa *Cain* a *Balaam*, ac yn rhoddi ei dihenydd iddi) ond bod *Genau* vffern yn traſlyngcu yr *Juddewaidd*, *Jud ad 11.*

waidd, a gwaelod a bol vffern yn cau ar y *Cristion Corah*. Ir rhai y cadwyd (nid y tan ar mwg eithaf, ond) *Cadwynau tragywyddol tan dywyllwch*. Ac (megis y cai rhai fyddent fyw yn y gwrthwynebiad hwn) fod yn ddiogel o hyn, mal y meirw hynny, ef a ddywaid; hwy a ddifethwyd (ſef yn barod.)

Dau nôd ar *Schiſm* mor hynod, a thrwy ddwylaw mor barchedig (ſef *Apoſtolion* Criſt a *Barnedigaethau* Duw) mal, os oes i ni na chariad ir nefoedd, neu ofn vffern, a wna i ni ddal *ſulw* arnynt. A hyn yw amlygyn y pennodiad hwnnw, a diben ar air yr Apoſtol, gochelwch oll a nodwyd ag efo.

Ac ymadewch ag hwynt (am hynny) Ac mal y gwneler hyn yn ddoeth ac yn gyflawn, rhaid i ni ei nodi drachefn yn y 1. gwraidd neu r *achos*, a chan weled hwnnw. 2. ei ſymud ef.

Pechod or cyfriw rywogaeth ddrwg, a gynnydda o ryw *achos* ddiffaeth.

1. Y gyntaf yw *Anwybodaeth*. Anwybodaeth or ſeiliau a wna yr *agennau* ar *codymmau* hyn mewn adeiladoedd yſprydol, *gormodd bauch* o bregethau, eiſiau bod yn dda *oddidanodd* mewn ſail *Gweithredoedd*. Pe goſodid pobl yngwyddorion y ffydd yn vnion, ni yſgydwyd hwynt yn eu meddwl, i fyhwman a phob awel o ddyſgeidiaeth, nes yrthio i amryfuſedd, ac yno canlyn yr rhai ai hurweiniant trwy liw or gwirionedd (mal hadoliaeth i *schiſm*). Yr rhai ſydd raid vd yn eu dwyn hwynt allan or Eccleſwys, o herwydd na allant gael na *Bywoliaeth*, na

Eph. 4. 14.
2 The. 2. 2.
2 pet. 2. 14.
1 Jo. 2. 19.

chynhwyſiad

Chynhwſiad ynddi. Ac mal y mae St. *Hierom* yn dal ſulw, nid oes vn Schiſm na ddychymyg ryw *Hereſi* iddi ei hun, mal y gallo ymddangos i ymado ar Ecclwys yn vnion. Yr Ecclwyſwyr diog ai *Seguryd*, neu ryw ddiben arall, am gynnwys hyn: Ar bobl o ragfarn, neu *Falchder*, ni oddefai rheini, maddeued Duw vddynt yr *Achos* yma. Canys y bugeiliaid ar deſaid a gyd gyfeiliornant, Triſt yw r effeithiau. Yr Ecclwys yn ddarnedig alarus, o herwydd bod yr aelodau mor *rhydd gymalog* yn y corph. Ar gwirion a ſymudir gyd a *phob awel* o athrawiaeth, o ran diffyg *pwys* o *feddwl pur* gwaſdatt ich. Hwy a leiddiant groeſawu pobrhyw beth, newydd, neu ddieithr, neu *berſon*, a *ffydd* vſudd-dod a deſoſiwn (*credu gwneuthur, gweddio* vnrhiw beth neu ym mhob man, eiliau cael eu *Cateceiſio* yn *forenaeh*, a chael cydnabyddiaeth well a hên *Fanneraa* Crefydd (*Y credo, deggorchymyn*, a *gweddi yr Arglwydd*.) 10. Y maent hwy eu hunain yn barod: i egluro, ac eſponnio Dadcuddiad *Joan*, yr rhai ni ddyſcaſont erioed bump llyfr *Moſes*, ac a ſwriant fryd a chyfrif ar ddwy ar bymtheg wythnoſau *Daniel*, a mil o ſlynyddoedd St. *Joan*, yr rhai (os hoſir yn dda) ni fedrant roi cyfrif am y chwech o brif-bwngciau St. *Paul*.

Heb. 1.1.9.
2 Pet. 3.17.
Eph. 4.14.
2 Tim 1.13.
1 Tim. 1.7.

2. Trachwant (yr hwn yn gyffredin ac yn naturiol a ganlyn anwybodaeth) a leda yr rwyg. Rhyfeloedd yn yr Ecclwys a enynnir gan *Drachwantau* yn yr *Aelodau*, am ſwrw ymaith *llywodraeth*, theſwm vnion or

Dan. 9.24.
Dad 20.6.
Heb. 6.1,2.
Trachwant yn achos Schiſm.

1 Pet.1.14. Jac.4.1. 2 Tim.3.6. & 3.3. 2 Pet.2.18.

galon, *gorfeddfa* Duw, nid ofnant dorri cre-
fydd yn ddwy, a gwahanu *Teirnas* Crist. Y
cyfriw ryfeloedd a gaiff ddigon o flaenori-
aid.

1. *Balchder achos o Schism.*

1. *Balchder* yw r pennaf. Yr hwn a
wnaeth y *Schism* gyntaf ym mhlith Ange-
lion. Ac a wna r cwbl oll ym mhlith y
Seinctiau, megis y gwnaeth *Diotrephes*. Y
balchder hwn (gan mwyaf yw r fam or Ta-
dau ar plant. Canys i ddynion gwirion
gael eu gwneuthur yn ddoethach nar holl
fyd Cristnogawl oi blaen hwynt, ac yn well
ac yn anwylach gan Dduw, nai holl hên
Seinctiau eraill, y mae hyn yn hudo yn dost
gyd a phobl druain (yr rhai nid oes arnynt
eisiau balchder.) Ac yno pa fath *Arglwyddi*
a *thywysogion* o bob *doethineb* a *daioni* fydd
raid vddynt hwy fod yr rhai a feidr ac a rydd
y cyfriw ddonniau mawrion oi gwybodaeth
ai *Gras* iw pobl. A hynny ai dwg ymaith
gyda *Simon Magus*. Rhai mawrion a fy-
ddant, yn ffordd yr Ecclwys nis gallant.
Allan am hynny yr ânt. A rhaid i rai fod i
ryfeddu eu mawredd. A hynny a wna r dyn
gwirion yn hawsaf; Am hynny hwy a *wyr-*
droant yr rheini, ac ai dygant hwy allan or
Ecclwys gyd ag hwynt.

3 Joa.ad.9. Psa.32. 2 Pet.2.18. Act.8.9. Act.8.9,10, 11.

Gormodedd. Achos o Schism.

2. Ac yn fynych yr arwain cylla *newynog*
gyd ag vn vchel. Canys yn Gyffredin yr A-
thrawon newydd yma yn erbyn yr Ecclwys,
ydynt yn chwarae r *Siaplen* ne goren r
Saig. Eu *Pulput* gan hynny ydyw r *Burdd*
a wasanaetha yn dalgrwn i *bregethu* ac i
fwyta arno, ai canllynwyr (yn fynych yn
dlodion)

dlodion) yn caru y cyfriw flafus ac iachus *Athrawiaeth*, ac ydynt yn hoffi y fath *brawfiadau* a *phyngciau* cyffurus, ac ydyw *Sir dda* yn ol *Pregethau*. St. *Peter* ai geilw hwynt (nid *ymprydwyr* ond *gwleddwyr*) a St. *Jud* ai geilw yn frychau yn eich cariad wleddiu chwi, mal hyn; yno yn cydwledda yn eu pefci eu hunain yn ddiofn (er bod yn yr Eccl wys, oll ar *betrufder*.) 2 Per. 2. 13. Jud ad 12.

A phwrs llawn a brŷn *Schifm* yn fynych, ac ai dwg ym mhlaen. Mal y prynir ac y gwerthir y bobl druain (eneidiau a chyrph) mal eillion caeth ac anifeiliaid gan *Perfiandwyr Babilon* mal y Dadcuddia St. *Joan*: fod gwyr awyddus dichellgar, yr rhai a gymerant arnynt *gadw* eneidiau i *ogoniant* Duw; eithr yngwirionedd eu gwerthu hwynt iw helw gorau eu hunain: mal y dengys Saint *Peter*. *A thrwy gybydd dod a chwedlau gwneuthur, y gwnant farfiandiaeth o honoch*: Ac nid rhyfeddod er vddynt hudo, a thwyllo llawer. Canys hwy a ddyfgwyd ac a ddygwyd i fyny yn dda yn y gelfyddyd. *Calon fydd yn gyneſin ganddynt i ymarferion cybyddion*. Hyn a wna vddynt hwy wneuthur *marchnadfa* or Eccl wys, gan ganlyn ffyrdd *Balaam yr hwn a garai wobr anghyfiawnder*. *Cybydd-dra achoso Schifm*. 2 Per. 2. 3.

Mal hyn y mae tri Apoſtol yn rhoi eglurwch o Arddangoſiadau *pa beth ydyw y neullduolwyr, or tecced y dychymygant reſwm troſtynt; (ôd* Judas, *Bal* Epicurus, *a chadair* Lucifer *ywr* Achos.

3. *Achos Bywyd drygionus. Achos o Schiſm.*

DRygioni bywyd, di lynwr trachwant, ſydd *arweinydd* i Schilm hefyd. Yn gyttal hyn y *bui* ac yn y *farn*, neullduolwyr a ymddangoſant yn *Seinddian*, eithr nid ydynt. Ni allant ſod o herwydd gan ſod y meddwl ar ewyllwys (ffynonnau gweithredoedd dynol) wedi eu gwenwyno a *chamwedd*, ac a *thrachwant*, thaid yw iw bywyd ſod yn llifeirio o *gyndynrhwydd* gwrthwynebus: A chyfion yw gyd a Dnw, na chai yr rhai a rodient ynghwrthwyneb ei oleuni ef, ai cydwybod eu hunain, (allan o *oleulwybr* yr Eccl wys,) ei gadwraeth ai fendith ef. O eiſiau yr hyn, y daw eu heneidiau yn yſgyfaeth i yſpeilwyr y *Gwirionedd* Criſtnogawl, ar dynghneddyf, nes yddynt hwy eu hunain droi yn lladron hefyd, heb eu gweled eirioed yn llwybr Duw oddieithr i yſpeilio ynddo. Ac yno hwy a ddeuant yn ei *gaſgl* ef, yr hwn a fydd digon ſiwr iw gyrru hwynt yn ddigon pell oddiwrth yr Eccl wys, rhag ſiddo ef golli ei *wobr* oi eneidiau hwynt, yr rhai trwy *Schiſm* a gafodd ef iw *feddiant*. O ni bai hynny, ſe ſyddai cimaint *rhyfeddod* a galarweled y fath niferoedd o yſpeilwyr nid yn unig oi *Criſtnogawl* ond oi *cyffredin brif-bynciau*,

o Relwm

o Reſwm ac honeſtrwydd. Ac a *arweinir* ymaith cym mhelled i fyned tu hwnt i Schiſm, i wrthgiliad hefyd, ie i ben pell ſ *Anghrediniaeth*. Yn gyntaf am-mherchi, yno gado, ar ol hynny gwadu yn gyſtal yr Eccl wys i *ymgadw* ynddi, neu Gritt i fod yn *gadwedig* trwyddo neu Dduw iw waſanaethu dim arno. Neu *Greſyddu* iw waſanaethu ef. Neu nefoedd iw gaelam y gwaſanaeth. Eithr hyn y mae nerth *Sionedigaeth* yn ei wneuthur. Gan fod *Satan* wedi oſod ar y llaw *Ddehau* ir rhai a adawo yr Eccl wys ar yr *aſſwy*. Gan fyned i mewn vddynt o hyn allan, ai cadw hwynt yn ei *Gappel*, ac wrth ei *Ddefoſiwn*, trwy felldith Dduw a Barn-gyſion. Felly y *dygant arnynt eu hunain diniſtr buan*: (tra echryſlawn oſidus am eu *Atſrawiaeth Wyrdraws*) ir hwn, am yr anuwioldeb mawr hwnnw, *yrhag ordeiniwyd hwynt er eſtalm.*

2 Theſ. 2. 8. Pſal. 109. 5.

Eſa. 6. 10. Act. 28. 26, 2 Pet. 2. 1. Jud ad 4.

4 *Gwrthwynebiad* i dreſn yr Eccl wys, a yr y *gymyſgedd warthus* hon i fryſio rhag ddi. Yn enwedig i dreſn *oruchel Apoſtolaidd*. Nôd St. *Joan* am dwyllwyr yw: *dwyn atſrawiaeth arall*. Am yr hon ni ddylent gael *rad Duw ar eu gwaith*. Atwydd St. *Paul* am Schiſmaticiaid, eu bod yn glynu wrth Athrawon newydd, a dychymygion yn erbyn yr hên Greſyddu, ar Rheol; Am hynny y gadawn ni vddynt *fyned ymaith*. Ni fyn St. *Cyprian* ir *lledfegyn Schiſm* gael vn *Tad* arall, ond dirmyg yr *Eſcob*, o waith rhyw *offeiriadau*, a *phobl coegfeilchion*.

4. *Achos gwrthwynebu treſn.*

Ac nid yw *Cymanfa Constantinopl* yn arbéd roi nôd diffaeth ar yr rhai *a brossesant yr vnion-wit ffydd, ac a wnant gasgliadau a chynylleidfau yn erbyn y dresn ganonical ac Escobaidd.* Heb sod yn *subordinat* neu dan-rag-ordeiniawl: ni ddichon hynny sod yn iawn, (Canys ni eill sod tresn ym mhlith gwyr, o gyd radd Gyda rhai, y bydd *ymbleidio* ac *ymwahanu.* Ni eill sod vndeb ac iawn dresn yn ymwared rhag y cyfriw ddrygioni, y mae St. *Hierom.* Ei hunan yn cydnabod anghenrhiwydd *Escobion.* Gan nad oes vn ffordd arall, yn erbyn y cymysgedd hynny, ond y dresn hon ar Andurdod.

5 *Achos o Schism gado gweddian r Ecclwys.*

5 A dibrisio a rhoi heibio *Weddiau* r *Ecclwys*, sydd spardyn i frysio *neullduad.* Yngwirionedd, *Schism* ei hun ydyw dorri y Cymun hwnnw. As os ydyw St. *Paul* yn dadlau yn vnion, Gwrthgiliad a ddigwydd or gwyrdrouad hwnnw, (cwymp oddiwrth ffydd ar y torriad cariad hwnnw yn synych:) eithr asgell o *Schism* bob amser, medd Saint *Awstin.* Oddiwrth yr hon y mae ef yn rhyddhau rhai, ac yn rhybuddio eraill rhagddi, trwy yr *Eglkrwch* hwn ar *ddadl* am ofalu na wnelont *ymgasglau* a *chynylleidfau* neullduol. Eithr yn rhoi *nôd* gwradwyddus ar yr rhai a ymddigrifant i wneuthur hynny. Ar ddau yn gyfion. Canys neullduaeth oddiwrth yr Ecclwys *Gatholic* neu (yr hyn) sydd gimaint) oddiwrth vn Ecclwys neullduol o honi, ac mewn Cymun ag y hi, i attal cy-

Gen. 4. 26.

fundeb

ſundeb mewn gweddiau, hyn yw *Schiſm* yn briodol.

A chan i Dduw ei hun wneuthur oll ddu- 1 Cor. 1. 20.
wioldeb yn *weddi*, Ar vnig le i hyn, yr Eccl- Mat. 21. 13.
wys, a elwir am hynny *y Gweddi*. Gan ſod Eph. 4. 3.
yr holl vndeb o wirionedd a chariad oddi-
wrth yſpryd Criſt, ar holl addewid o hynny
yn vnig mewn *cydymgyſarfod*, ir cyfriw we-
ddiau. Gan ſod holl ofal o gynnal i ſynu
yr vndeb hwnnw a roddwyd i *ddoethineb* a
duwioldeb yr *Eccluys* wedi ei wneuthur am
hynny, *yngoloſn y gwirionedd*, ac yn gyny lleid- Rhy. 5. 5.
fa y *Sainct*; lle y mae hi (trwy ei *Athraui-* Mat. 18. 20.
aeth ai *Doſoſiwn* yn cyflawni ei ymddi- 1 Tim. 3. 15.
ried) gan ſod yn lail ac yn *gyfle* ir Goloſn
hon.

Y rhai a wrthodant ymgyſarfod ynddi, ac
a gyll y bendithiau hynny, haid vddynt gael
en melldithio a *chaſglau*, lle o eiſiau coloin i
ddal i ſynu y gwirionedd y trobaeddir hwynt
a beiau, ac y llethir hwynt a Schiſmau. Wedi
en dal yn gyſion mewn *camwedd* ac *angha-*
riadoldeb. (Y ddwy law hynny o eiddo r cy-
thrael) yr rhai ai reiſi en hunain allan a *ſonwes*
Duw, a *breichiau* yr *Eccluys*, yn wradwyddus
am dorri *treſn* en *Tad*, ac yn ddiſendith am
ddirmygu *gweddiau* en *mam*.

Mal yr yscrifenwyd y pethau yma yn wyddorion argraphedig *o waith yr Apostolion, felly y mae yn hawdd eu* dirnad *ym* mucheddau *neullduolwyr. Canys y* gwyrdroedig (*er bod rhai a meddyliau da*) *ydynt oll* animalau *neu* greaduriaid gwirionaidd. *Yr hudolwyr.* anifeiliaid *ynfydion*, tr thyll *yn eu calonnau, a* thydd *yn eu bywyd. Gelynnion gan hynny i lywodraeth ac Awdurdod, yr hyn a* gerydda *y* beiau *hynny. A gwibiaid a diethriaid ewyllyscar ir Ecclwys i ochelyd y cerydd hwnnw.*

S*Chism* a wna *rwygiad* yngorph Crist, a haint yn yr Ecclwys. I golli enediau, Oddiwrth *wahanglwyf* pechod, iw goruwchguddio. Cymerwch ei fesur yn vnion ai holl *faintiolaethau* ydynt gythreulig. Uchder drygioni, gyda dysnder trueni yw, hyd eithaf cospedigaeth, oddiwrth *led* llygredigaerh. Tros y meddwl, y galon, y bywyd, yr yspryd, yr enaid. Felly os ni a wnawn ddim er mwyn Duw gochelwn ef, o herwydd ei fod yn gimaint pechod yn ei erbyn ef. Os er mwyn Crist, am ei fod yn gimaint *briw* iddo ef. Os er mwyn yr *Ecclwys*, am ei fod yn gimaint colled iddi hi. Os er mwyn ein eneidiau, o herwydd ei fod yn gimaint *dinistr* vddynt hwy. Os er mwyn ein bywyd o herwydd ei fod yn ddestruwiad ir rheini. Os er mwyn y Deirnas o herwydd ei fod yn gimaint *rhwygiad* iddi. Os er mwyn y byd, o herwydd

wydd ei fod yn *gwymp* o *fethiant* iddo. Os er mwyn y ddauar, o herwydd ei melldith yw. Os er mwyn y nefoedd, o herwydd y gelyn pennaf iddi. Oni wnawn ni ddim er mwyn vffern, o herwydd cefeill goran diafol ydyw. Mogel a gochel ef gan hynny, onid oes achos?

2 A *lladd* yr aderyn yn yr *wy*. Ffo rhag yr achos, dyna y ffordd iw ochel ef. Ffo rhag *anwybodaeth*, megis rhag *neidr*, rhag *trachwant* megis rhag *vffern*, rhag *balchder* megis rhag *Lucifer*, rhag gormodedd, megis rhag yspryd aflan, rhag *cybydd dod*, megis rhag *Temptiwr*. Rhag pechod megis rhag sarph, rhag *Gwrthryfel* mal rhag *Dewines*, rhag *cydgasglau* mal rhag *tai heintus*. Hyn yw, cymeryd ymaith *Dad*, *mam*, *mamaeth*, *ceidwad*, *arweinydd* allan o feddwl, o galon o fywyd, yspryd, a ffordd: ac felly rhaid iddo bendyfadu, newynu, rhynnu, a diflannu.

Psa. 1.
Dad. 18. 2.
1 Tim. 6. 9.
Eccle. 21. 2.
1 Sam. 15. 23.

Yn enwedig os gwnawn wrthwynebwaith i *Schism*, ai gyfarfod ef ac *ymwiscoedd* gwrthwyneb, ac a gweithredoedd o Ras, yr rhai ni chynnwyfant iddo ddyfod ym mlaen, eithr ei gadw yn ol. Trwy Athrawiaeth well, byddwch wedi eich feilio yn y gwirionedd, felly ni rydd *anwybodaeth* mo honoch yn ysglyfaeth i *hudolwyr*. Gwarchewch eich *trachwantau*, a dyfal *farweiddiad*, ac ni arweinir mo honoch ymaith iw *maglau* hwynt.

2 Pet. 3. 17, 18.
2 Tim. 3. 6.
2 Tim. 4. 3.
2 Pet. 4. 3.
2 Pet. 2. 18.
Esa. 65. 5.
Phi. 2. 3.

